OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 3054 (Cy.289)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *10 Rhagfyr 2002* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Rhagfyr 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 140(4) a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) a pharagraffau 4, 5 a 6 o Atodlen 8 iddi, sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cnedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**):

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2002 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2002.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 1992" yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**3**).

**Diwygio Rheoliadau 1992**

**2.** Ynglŷn â'r blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2003, diwygir Atodlenni 2 a 4 i Reoliadau 1992 fel a ganlyn:—

(a) ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2 yn lle "0.995" rhoddir "0.999"; a

(b) yn lle Atodlen 4 i Reoliadau 1992 rhoddir yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1988 p.41.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672
(**3**) O.S. 1992/3238, a ddiwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439, 2000/3382 (Cy.220) a 2001/3910 (Cy.322).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis-Thomas*

10 Rhagfyr 2002

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

## YR ATODLEN

Rheoliad 2

## "SCHEDULE 4

Regulation 6

## ADULT POPULATION FIGURES

| *Billing authority area* | *Prescribed figure* |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 53,200 |
| Bridgend | 99,100 |
| Caerphilly | 128,400 |
| Carmarthenshire | 234,600 |
| Cardiff | 135,400 |
| Ceredigion | 60,800 |
| Conwy | 86,800 |
| Denbighshire | 72,400 |
| Flintshire | 114,200 |
| Gwynedd | 91,400 |
| Isle of Anglesey | 52,000 |
| Merthyr Tydfil | 42,300 |
| Monmouthshire | 65,800 |
| Neath Port Talbot | 104,500 |
| Newport | 102,600 |
| Pembrokeshire | 86,800 |
| Powys | 98,700 |
| Rhondda Cynon Taff | 177,500 |
| Swansea | 175,400 |
| Torfaen | 69,000 |
| Vale of Glamorgan (The) | 90,400 |
| Wrexham | 99,700" |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mae'n ofynnol i awdurdodau bilio yng Nghymru dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Gynulliad Cenedlaethol

Cymru. Mae'r rheolau ar gyfer cyfrifo'r symiau hynny wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy roi lluosydd newydd ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2 (rhagdybiaethau ynglŷn â'r swm gros), ac Atodlen 4 newydd (ffigurau poblogaeth oedolion).